



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf Morgannwg
University Health Board

YMATEB BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG
I'R PANEL TROSOLWG ANNIBYNNOL
AR WASANAETHAU MAMOLAETH (IMSOP)
ADRODDIAD MANWL O'R GWASANAETHAU NEWYDDENEDIGOL

Chwefror 2022



Rhagair

Diben yr adroddiad hwn, gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (CTM), yw ymateb i ganfyddiadau Tîm Newyddenedigol y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth (IMSOP, sef y Panel o hyn ymlaen).

Mae'r canfyddiadau wedi llywio'r gwaith a oedd ar y gweill ers i Lywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol o Wasanaethau Mamolaeth gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG) a Choleg Brenhinol y Bydwagedd (RCM). Nododd adroddiad y Colegau Brenhinol ym mis Ebrill 2019 nifer o bryderon difrifol ynglŷn â'r gwasanaethau mamolaeth yn CTM, gan gynnwys y gwasanaethau newyddenedigol.

Mae ein Bwrdd Iechyd wedi cynhyrchu nifer o adroddiadau ymateb ers mis Ionawr 2021, gan ganolbwyntio ar ein Gwasanaethau Mamolaeth a'r gofal i famau a babanod. Mae'r rhain yn cynnwys ymatebion i adroddiadau thematig y Panel ar gyfer y categorïau marwolaethau a morbidrwydd mamau, a marw-enedigaethau. Disgwylir trydydd adroddiad thematig yn ddiweddarach eleni, a fydd yn canolbwyntio ar y categori newyddenedigol.

Yn yr ymateb hwn, canolbwyntiwn ar y gofal i fabanod, a phrofiadau ein teuluoedd o safbwynt gwasanaethau newyddenedigol.

Mae ein Bwrdd Iechyd yn deall y gallai darllen yr adroddiad hwn beri straen a gofid i lawer o deuluoedd. Hoffem roi sicrwydd i'n teuluoedd a'n cymunedau ein bod wedi ymrwymo i ddarparu'r gofal gorau posibl i bob teulu sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Gobeithiwn fod yr adroddiad hwn yn dangos y gwersi a ddysgwyd a'r gwelliannau yr ydym wedi eu gwneud, ac y byddwn yn parhau i'w gwneud.

Hoffem ymddiheuro i unrhyw deulu sydd wedi dioddef o unrhyw brofiad o ofal na chyrhaeddodd y safon uchel yr anelwn ati. Mae'n ddrwg iawn gennym, ac rydym yn parhau i ymdrechu i ddarparu'r gofal gorau posibl i bawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau.



Paul Mears,
Prif Weithredwr



Emrys Elias,
Cadeirydd

Tabl cynnwys

❖ Rhagair	1
❖ Cyflwyniad a chefnidir.....	3
❖ Beth a ganfu'r Panel: Y canfyddiadau a'n hymatebion	
- trosolwg	4
❖ Thema 1: Ymgysylltu â theuluoedd.....	5
❖ Thema 2: Sicrwydd o ran atebolrwydd a llywodraethiant.....	9
❖ Thema 3: Gweithlu'r Gwasanaeth Newyddenedigol.....	11
❖ Themâu 4 a 6: Swyddogaethau a diogelwch yr Uned Newyddenedigol.....	14
❖ Thema 5: Adroddiadau Cymru gyfan ac adroddiadau cenedlaethol.....	15
❖ Thema 7: Aseidiadau achos clinigol.....	16
❖ Gwelliannau yn y dyfodol a CTM2030.....	20

1.0 Cyflwyniad a chefnidir

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwraedd ganfyddiadau eu Hadolygiad Annibynnol ar y cyd o Wasanaethau Mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Penododd Llywodraeth Cymru y Panel er mwyn penderfynu a oedd y gofal a ddarperir yn ein Bwrdd Iechyd yn briodol ai peidio ac, os nad oedd, pa ddysgu a gwelliannau y gellid eu nodi.

Yn 2020, gofynnodd y Bwrdd Iechyd am gynnal adolygiad allanol o'i Wasanaethau Newyddenedigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, yn rhan o brosesau sicrwydd y Panel ar gyfer gwasanaethau mamolaeth. Gofynnwyd am yr adolygiad hwn yn dilyn adolygiadau rheolaidd o ofal yn yr Uned Newyddenedigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, ac yn yr hen uned yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Teimlai uwch-glinigwyr, mewn rhai achosion, y gellid gwella'r rhain.

Ym mis Mai 2021, dechreuwyd adolygiad manwl o'r Gwasanaethau Newyddenedigol, neu '*deep dive*' yn Saesneg, a chytunodd ein Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru ar ffocws ac amcanion yr adolygiad er mwyn sicrhau bod ein gwasanaeth:

- **Yn ddiogel ac yn effeithiol**
- **Yn cael ei arwain a'i reoli'n dda**
- **Yn canolbwyntio ar ddarparu profiad o safon i fenywod ac i deuluoedd**
- **Wedi ei integreiddio â'r Gwasanaethau Mamolaeth er mwyn darparu gwasanaeth di-dor i fenywod a babanod**
- **Wedi ei integreiddio'n effeithiol yn Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru**
- **Yn addas i'r diben ac yn gynaliadwy yn y tymor hwy.**

Ym mis Awst 2021, cafodd pryderon eu huwchgyfeirio gan y Panel at Lywodraeth Cymru ynghylch elfennau o ofal yn yr Uned Newyddenedigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, gan nodi bod angen gweithredu ar frys ar rai meysydd. Cymerwyd camau gweithredu ar unwaith i ddechrau mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Erbyn mis Chwefror 2022, mae'r adolygiad manwl o'r gwasanaethau newyddenedigol wedi ei gyhoeddi gyda 43 o argymhellion, sydd wedi eu rhannu yn saith maes neu thema allweddol fel a ganlyn:

1. Ymgysylltu â theuluoedd a rhoi cymorth iddynt

2. Llywodraethiant, sicrwydd ac atebolrwydd

3. Gweithlu'r Gwasanaeth Newyddenedigol

4. Adrodd

5. Swyddogaethau'r Uned Newyddenedigol

6. Diogelwch yr Uned Newyddenedigol

7. Asesiadau achos clinigol

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r gwersi a ddysgwyd gan ein Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r argymhellion hynny, yn seiliedig ar y saith thema. Mae'n tynnu sylw hefyd at y gwelliannau yr ydym wedi eu gwneud ac yn parhau i'w gwneud.

2. Beth a ganfu'r Panel: Y canfyddiadau a'n hymatebion

Mae'r adolygiad manwl o'r Gwasanaethau Newyddenedigol yn nodi argymhellion, sydd wedi eu rhannu yn saith thema allweddol. Mae'r adroddiad, yn ogystal â'i argymhellion, yn cynnwys y pryderon a nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad Uwchgyfeirio Pryderon a gyhoeddwyd gan y Panel ym mis Awst 2021.

Mae'r adroddiad hwn, felly, yn darparu'r wybodaeth ganlynol :

- Crynodeb o'r prif bryderon a materion fel y nodwyd gan y Panel yn y saith thema.
- Enghreifftiau o'r gwaith rydym wedi ymgymryd ag ef i wneud y gwelliannau angenrheidiol, fel y nodwyd yn yr Adroddiad Uwchgyfeirio Pryderon (Awst 2021) a'r Adroddiad Manwl, y mae hwn yn ymateb iddo.

- Y gwelliannau sydd ar y gweill a'r gwelliannau yr ydym wedi ymrwymo iddynt yn y dyfodol, er mwyn sicrhau'r newid cynaliadwy hirdymor.

Er bod yr adolygiad manwl wedi canolbwyntio ar ein Huned Newyddenedigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, dylid nodi bod y rhaglen o welliannau yn cynnwys cydweithwyr a thimau newyddenedigol yn ein huned yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Byddwn yn sicrhau bod gennym ddulliau teg sy'n adlewyrchu safonau newyddenedigol yn y ddwy uned.

Gobeithiwn y bydd yr wybodaeth ganlynol yn rhoi sicrwydd i'n teuluoedd a'n cymunedau ein bod yn gweithio'n galed i ymateb i'r argymhellion yn yr adolygiad, wrth i ni ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'n holl deuluoedd.

3. Yr hyn a nododd y Panel yn yr adolygiad manwl, a'n hymatebion

THEMA 1: YMGYSYLLTU Â THEULUOEDD

Nododd y Panel nad oedd ein cymorth i deuluoedd yn gyson, a bod angen i ni wella yn y meysydd canlynol:

1. Cyfathrebu a gwybodaeth i deuluoedd
2. Cynnwys rhieni a gofalwyr yn y penderfyniadau sy'n ymwneud â gofal eu babanod
3. Amrywioldeb ac anghysondeb yn y gwasanaeth
4. Cymorth emosiynol i deuluoedd
5. Cymorth i fwydo ar y fron
6. Rhyddhau cleifion a chymorth yn y cartref
7. Gwahanu o'r babi
8. Gwrando ar bryderon ac ymateb iddynt

Sut rydym wedi ymateb?

ARWEINYDD YMGYSYLLTU Â THEULUEDD Y GWASANAETHAU NEWYDDENEDIGOL

Rydym wedi creu swydd newydd Nyrs Newyddenedigol ar gyfer Ymgysylltu. Bydd hon yn arwain y gwaith ymgysylltu â theuluoedd ac yn datblygu gwasanaethau a fydd yn canolbwyntio ar deuluoedd yn y ddwy uned. Ymhlith y meysydd gwaith penodol y bydd y Nyrs Ymgysylltu yn eu harwain fydd datblygu fforwm arbennig, lle gall rhieni a gofalwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau newyddenedigol ddylanwadu ar y gwaith hwn.

Ar hyn o bryd, rydym yn hysbysebu'r rôl bwysig hon i ymuno â'n Tîm Newyddenedigol, a'r gobaith yw y gallwn recriwtio erbyn Pasg 2022.

Rydym wedi addasu ein dogfennau er mwyn gallu cofnodi unrhyw gyfathrebu a gwybodaeth a rennir â theuluoedd. Gwnaed hyn mewn cydweithrediad ag aelod o'r Panel.

EIN STRATEGAETH YMGYSYLLTU Â THEULUEDD

DRAFFT Strategaeth Ymgysylltu y Gwasanaethau Newyddenedigol

2021-2022



Mae'r drafft o Strategaeth Ymgysylltu ein Gwasanaethau Newyddenedigol yn llywio ein cynlluniau ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd. Wrth gwblhau'r cynllun hwn, gyda chymorth ein Nyrs Ymgysylltu Arweiniol newydd, byddwn yn gweithio gyda theuluoedd i sicrhau bod gennym amrywiaeth gynhwysfawr o ffyrdd a sianelau i ymgysylltu â'n teuluoedd ac â'n cymunedau. Bydd hyn yn gysylltiedig â'r themâu a nodwyd gan y Panel, a bydd yn cynnwys y mecanweithiau a ddefnyddir i fynd i'r afael â'r rhain yn fanylach.

YMGYSYLLTU Â THEULUEDD A BWYDO BABANOD

Rydym yn benderfynol o wella ein cymorth i fenywod sydd am fwydo ar y fron, felly rydym yn adolygu'r cymorth a ddarparwn i'n teuluoedd i'w helpu i wneud y dewis gorau iddynt hwy. Mae ein harweinwyr bwydo babanod, Natalie a Geraldine, yn dangos ein hymrwymiad i roi cymorth i deuluoedd wrth fwydo eu babanod.



"Mae sicrhau bod rhieni'n gallu cael perthynas agos a chariadus gyda'u babi, a'u bod yn cael cymorth i fwydo ar y fron ac yn cael eu gwerthfawrogi fel partneriaid yn eu gofal, yn hollbwysig yn ein Hunedau Newyddenedigol. Ein rôl yw hyrwyddo manteision bwydo ar y fron a rhoi cymorth i deuluoedd. Rydym hefyd yn sicrhau bod y staff newyddenedigol yn cael gwybod y diweddaraf drwy ddarparu hyfforddiant rheolaidd ac archwiliadau rheolaidd o sgiliau a gwybodaeth. Yn 2022, bydd ein gwaith ymgysylltu â theuluoedd yn cynnwys trafod bwydo babanod yn fanylach â theuluoedd, er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi cymorth i deuluoedd yn y ffordd orau bosibl."

YMARFER ARLOESOL

Mae sawl enghraifft o ddulliau arloesol o weithio a roddwyd ar waith gan ein timau. Enghraifft dda o hyn yw'r 'gloch diwedd triniaeth'; sef symbol o obaith i'r teuluoedd sy'n wynebu sefyllfa annisgwyl a heriol yn emosiynol.

Mae'r gloch yn cynnig dathliad cadarnhaol i deuluoedd wrth eu rhyddhau i fynd adref.

CYNLLUNIAU YMGYSYLLTU YN Y DYFODOL: CYMORTH SEICOLEGOL

Yn 2022, bydd rhaglen gymorth i'n teuluoedd yn cael ei harwain gan Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol, sydd wedi ei ariannu i dreialu cynllun peilot sy'n canolbwyntio ar roi cymorth seicolegol i deuluoedd yn ein hunedau newyddenedigol.

Y nod fydd darparu cymorth a chynghor seicolegol i deuluoedd a gofalwyr yn ystod y cyfnod y bydd eu baban yn aros yn yr uned.

GWAHANU O FABANOD

Rydym yn defnyddio data ATAIN i adolygu a, gobeithio, osgoi derbyn babanod sydd wedi cyrraedd eu llawn dymor. Nod y rhaglen waith hon yw osgoi'r niwed posibl sy'n arwain at wahanu'r fam a'r babi.

GWRANDO AR BRYDERON AC YMATEB IDDYNT

Mae Mesur Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 a Rheoliadau'r GIG (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac lawn) (Cymru) 2011, yn llywio'r modd y mae ein Bwrdd Iechyd yn ymateb i bryderon ac adborth gan gleifion. Mae timau pryderon y Grwpiau Lleoliad Integredig yn cynorthwyo ein hunedau babanod newydd-anedig yn hyn o beth.

THEMA 2: SICRWYDD O RAN ATEBOLRWYDD A LLYWODRAETHIANT

Canfu Panel y pryderon canlynol:

1. Nid oedd y systemau a'r prosesau llywodraethu'n gallu dangos tystiolaeth amlwg o ofal diogel ac effeithiol, nac yn gallu nodi risgiau neu bryderon
2. Nid oedd gwybodaeth y Gwasanaeth Newyddenedigol ynglŷn â gofal babanod a gwelliannau yn dangos y gwersi a ddysgwyd gennym o ddiwyddiadau yn y Bwrdd Iechyd
3. Ni chafodd ein rhaglen archwilio clinigol ei sefydlu'n dda
4. Capacity
5. Integreiddio'r gwasanaethau
6. Diwylliant

Sut rydym wedi ymateb?

SEFYDLU LLYWODRAETHIANT DA

Rydym eisoes wedi cyflwyno amrywiaeth o fesurau i sicrhau bod ein Gwasanaeth Newyddenedigol yn gallu dangos arferion da, gofal o ansawdd uchel a gwelliannau i'w wasanaethau. Rydym hefyd yn rhannu gwersi a ddysgwyd ac enghreifftiau o arferion y mae angen eu gwella ymhellach.

Er enghraifft:

Arbenigedd clinigol:

Rydym wedi recriwtio neonatolegydd arbenigol hynod brofiadol sy'n gyfrifol am wella'r llywodraethiant yn ein hunedau newyddenedigol, a chynorthwyo prosiectau archwilio ar draws ein Bwrdd Iechyd.

Erbyn hyn, mae'r neonatolegydd yn cadeirio'r Fforwm Newyddenedigol ar draws y Byrddau Iechyd, lle mae'r staff meddygol a'r staff nyrso yn dod at

ei gilydd i adolygu materion y gwasanaeth ac i gytuno ar ddatblygiadau yn eu gwasanaeth. Mae amrywiaeth o gyfarfodydd newyddenedigol clinigol yn adrodd i'r Fforwm Newyddenedigol er mwyn hybu'r gwaith hwn

Mae'r Fforwm Newyddenedigol yn adrodd yn ffurfiol i'r uwch-dîm yn ein Gwasanaethau Plant ehangach, ac yn y pen draw i'r Bwrdd er mwyn darparu sicrwydd ar y lefel honno.

CYNLLUNIAU GWELLA AR GYFER Y DYFODOL

Ar hyn o bryd, mae ein Bwrdd Iechyd yn datblygu gwell fframwaith sicrwydd a Bwrdd y Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol i'w roi ar waith yn 2022. Bydd hyn yn adnewyddu ein prosesau ar gyfer monitro perfformiad, diogelwch ac effeithiolrwydd y Gwasanaeth, a bydd modd adrodd ar y rhain drwy ffrydiau atebolrwydd i'n Bwrdd CTM.

Capasiti:

Rydym yn ddiolchgar i'r Panel am gydnabod effaith y pandemig ar ein gallu i wneud cynnydd ar y camau gweithredu angenrheidiol, o ran capasiti yn y Tîm Gwella, a chapasiti'r clinigwyr i ymateb i ofynion y gwaith gwella. Cyfeiriwyd yn rhannol at hyn yn yr ymateb isod ynglŷn â'r gweithlu.

Gweithio integredig:

Fel y cyfeiriwyd ato mewn manau eraill yn yr ymateb hwn, mae ein Tîm Newyddenedigol a'n Tîm Mamolaeth wedi addasu a strwythuro rhaglen o gyfarfodydd, hyfforddiant ac archwiliadau, er mwyn gwella'r partneriaethau cydweithredol ac effeithiol a hybu datblygiadau o ran dysgu ac o ran y gwasanaeth.

Diwylliant:

Mae'r Panel wedi cydnabod gwaith ein Bwrdd Iechyd ehangach o ran diwylliant y sefydliad, gan gynnwys ein rhaglen Gwerthoedd ac Ymddygiadau. I gyd-fynd â hyn, mae proses newydd ar gyfer arfarnu'r staff, yn ogystal â rhaglen ar gyfer darpar reolwyr a rheolwyr sydd wedi eu hen sefydlu; "*Aspire, Ignite, Inspire*". Mae hyn yn datblygu ar y gwaith a wnaed o ganlyniad i adroddiad Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, 'Trosolwg o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd ym Mwrdd Iechyd

Prifysgol Cwm Taf Morgannwg: Crynodeb o'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion Mai 2021'.

Yn benodol i ddarpariaeth y gwasanaeth newyddenedigol mae'r gwaith cyfredol o ddatblygu fframwaith diwylliant ar draws y Tîm Mamolaeth a'r Tîm Newyddenedigol. Bydd hyn yn datblygu ymhellach ar y gwaith cyfredol ac yn cynorthwyo'r staff i arwain a rheoli newid.

THEMA 3: GWEITHLU'R GWASANAETH NEWYDDENEDIGOL

Nododd y Panel nifer o faterion a phryderon, cyfleoedd i wella ein gweithlu, a meysydd penodol yr oedd angen eu cryfhau.

Yn y gweithlu meddygol:

1. Mae angen i rota ein meddygon gynnwys ymgynghorydd ar gyfer yr wythnos, gyda phatrwm gwaith rhwng 9am a 5pm. Mae angen o leiaf bedair wythnos yn y Gwasanaeth Newyddenedigol bob blwyddyn ar bob Ymgynghorydd sydd â chyfrifoldeb ar alw dros yr Uned.

Yn y gweithlu nyrsio:

2. Yn flaenorol, roedd rolau ein huwch-nyrsys ar gyfer y Gwasanaethau Newyddenedigol hefyd yn cynnwys rolau yn y Gwasanaethau i Blant. Dylid bod uwch-nyrs sy'n canolbwyntio ar wasanaethau newyddenedigol yn unig.
3. Mae gennym fodel gweithlu traddodiadol heb unrhyw ddilyniant gyrfa clir a dim ond un uwch-ymarferydd nyrsio newyddenedigol. Nid ystyrir hyn yn ddigon, ac nid oes gennym rôl nyrs ymgynghorol.
4. Yn aml, pan fydd ein nyrsys wrth y llyw yn yr uned, bydd rhaid iddynt ddarparu gofal i fabanod yn ogystal â chyflawni eu rôlau rheoli. Nid yw hyn yn cyd-fynd â'r canllawiau cenedlaethol, sy'n argymhell na ddylai nyrs wrth y llyw fod yn gyfrifol am faban a gaiff ei neilltuo i nyrs.
5. Mae angen i ni ehangu set sgiliau ein gweithlu, gyda chylchdro o'n timau nyrsio a meddygol i'n hunedau newyddenedigol cyfagos, megis yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd.
6. Nid oes gennym therapyddion (gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd) ar gyfer ein gwasanaethau newyddenedigol, ac nid yw hyn yn cyd-fynd ag argymhellion cenedlaethol.

Hyfforddiant a dilyniant:

7. Nid oedd ein cydymffurfiaeth o ran hyfforddiant gorfodol yn ddigonol ac roedd angen ei gwella ar draws yr holl grwpiau staff ac roedd angen ymgymryd â hi o fewn oriau gwaith.
8. Roedd angen nodi hyfforddwyr nyrsio, bydwreigiaeth a chefnogi bywyd y newydd-anedig (NLS) yn CTM er mwyn hybu hyfforddiant lleol a hyfforddiant efelychu ym maes NLS.
9. Dylid datblygu rhaglen addysgu benodol i nyrsys, gan gysylltu â'r rhwydwaith addysgu nyrsys.
10. Nid oes system ffurfiol gan ein timau nyrsio o ran goruchwyliaeth glinigol.

Sut rydym wedi ymateb?

Y GWEITHLU MEDDYGOL

Arweinyddiaeth a goruchwyliaeth glinigol:

Rydym wedi recriwtio rhagor o ymgynghorwyr yn ddiweddar, ac nid oes gennym swyddi meddygon ymgynghorol gwag ar hyn o bryd.

Erbyn hyn, mae gennym ymgynghorydd arbennig ar gyfer yr wythnos sydd ar gael yn benodol ar gyfer yr Uned Newyddenedigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl.

Mae'r rotas diwygiedig bellach yn sicrhau bod ymgynghorwyr ar gael ar alw am o leiaf bedair wythnos y flwyddyn.

NYRSIO A THERAPÏAU GWEITHLU (y Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd)

Arweinyddiaeth:

Penodwyd uwch-nyrs i oruchwyllo'r Uned Newyddenedigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn unig, er mwyn darparu cymorth ac arweinyddiaeth nyrsio ychwanegol a phenodol.

Hyfforddiant:

Rydym wedi datblygu rhaglen gylchdro gydag Ysbyty Athrofaol Cymru. Y nod yw y bydd nyrsys o'r ddwy uned newyddenedigol yn CTM yn treulio amser yn gweithio ac yn datblygu eu sgiliau proffesiynol yn yr uned arbenigol hon sy'n llawer mwy o faint. Y bwriad yw cychwyn y cylchdro unwaith y bydd y pwysau o ran staffio, sy'n gysylltiedig â'r cynnydd mewn achosion o COVID-19, wedi lleddfu.

Modelau'r gweithlu:

Mae achos busnes yn cael ei ddatblygu gan y Timau Newyddenedigol, i'w gymeradwyo'n fewnol. Bydd hwn yn galluogi'r Gwasanaethau Newyddenedigol i ddatblygu model newydd ar gyfer y gweithlu, gan ymgorffori argymhellion yr adroddiad manwl ar gyfer y Gwasanaethau Nyrsio a Therapiau.

Cynorthwyo'r timau:

Mae model goruchwylio yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o gynnig hyn i'r holl staff yn ystod y tri mis nesaf. Bydd hyn yn rhoi gwell cymorth proffesiynol i staff yr uned.



Mae Leanne Richards, ein Nyrs Newyddenedigol Arweiniol, yn angerddol am ddarparu'r gofal newyddenedigol gorau posibl. Meddai hi: *"Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod digon o staff gennym yn ein hunedau, er mwyn sicrhau bod y timau newyddenedigol yn y sefyllfa orau i ddarparu gofal rhagorol sy'n adlewyrchu safonau newyddenedigol. Rydym yn gweithio drwy argymhellion y Panel ar gyfer ein timau amlddisgyblaethol ar y ddau safle."*

THEMÂU 4 a 6:

DIOGELWCH AC YMARFEROLDEB YR UNED NEWYDDENEDIGOL

Mae'r pryderon a nodwyd ynghylch diogelwch ac ymarferoldeb yr unedau wedi eu crynhoi oherwydd eu tebygrwydd. Yn eu plith, mae:

1. Diffyg tystiolaeth bod digwyddiadau wedi cael eu hadolygu'n drylwyr, a bod ffactorau diwylliannol a dynol wedi eu cynnwys.
2. Nodwyd nad oedd y gwasanaeth mamolaeth a'r gwasanaeth newyddenedigol yn cydweithio mor effeithiol ag y dylent.
3. Ni rannwyd prosesau llywodraethu a sicrwydd ar draws y gwasanaeth mamolaeth a'r gwasanaeth newyddenedigol.

Sut rydym wedi ymateb?

TREFNIADAU LLYWODRAETHU ANSAWDD

Polisiau a safonau:

Rydym wedi adolygu a diweddarau ein holl bolisiau clinigol er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion uned newyddenedigol fodern

Cyfarfodydd a rhannu arferion da:

Mae'r gwasanaeth newyddenedigol a'r gwasanaeth mamolaeth wedi adolygu a diwygio cyd-gyfarfodydd ffurfiol, lle bydd uwch-dimau clinigol a thimau rheoli yn bresennol. Mae'r cyfarfodydd bellach yn adlewyrchu llywodraethu da gyda chyfleoedd i adolygu pryderon, llunio cynlluniau gweithredu ac arwain unrhyw wersi uniongyrchol.

Erbyn hyn, mae cyfarfodydd mamolaeth a newyddenedigol er mwyn adolygu materion a digwyddiadau clinigol. Mae'r rhain yn cynnwys ATAIN (osgoi derbyn babanod sydd wedi cyrraedd eu llawn dymor i'r uned newyddenedigol) a PMRT (offeryn adolygu marwolaethau amenedigol), y mae'n rhaid i bob gwasanaeth newyddenedigol gydymffurfio â hwy, yn ogystal â chyfarfodydd morbidrwydd a marwolaethau.

Archwiliadau a gwersi a ddysgwyd:

Mae rhaglen archwilio mamolaeth a newyddenedigol ar y cyd ar gyfer 2022, a bydd hon yn cynorthwyo ein timau i adolygu a herio ymarferion yn ogystal â rhannu enghreifftiau o ragoriaeth glinigol.

THEMA 5: ADRODD LEDLED CYMRU AC YN GENEDLAETHOL

Nododd y Panel nad oedd y data newyddenedigol penodol a oedd ar gael yn cael ei ddefnyddio er mwyn llywio ymarfer, a nododd fod ansawdd y data yn wael ac nad oedd gennym ffordd systematig o gasglu ac adrodd y data.

Sut rydym wedi ymateb?

Ym mis Mehefin 2021, penodwyd Swyddog Data Newyddenedigol, sydd hefyd yn nyrs newyddenedigol profiadol, i arwain y maes gwaith hwn. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu dangosfwrdd newyddenedigol, sy'n adlewyrchu safonau newyddenedigol Cymru gyfan. Rydym yn parhau i fireinio'r dangosfwrdd ac rydym bellach yn gallu defnyddio hwn i fonitro perfformiad, yn ogystal â diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth.

Dyma Ryan O'Dell, y Swyddog Data Newyddenedigol, yn esbonio pwysigrwydd y gwaith hwn:



"Mae datblygu dangosfwrdd newyddenedigol wedi bod yn allweddol er mwyn dangos sawl agwedd ar ofal newyddenedigol. Rwyf wedi gweithio gyda'r meddygon a nyrsys newyddenedigol arweiniol yn y gwasanaeth i sicrhau y gallwn ddisgrifio amrywiaeth eang o wybodaeth gan ddefnyddio'r dangosfwrdd. Mae hyn yn cynnwys popeth o'r rhesymau dros dderbyn babanod i'n hunedau a'u gofal dilynol, i feini prawf archwilio'r gwasanaeth newyddenedigol a'n lefelau staffio. Pan gaiff y data ei gasglu a'i ddadansoddi, mae ganddo rôl bwysig o ran gwella ansawdd y gofal a ddarparwn yn ein gwasanaeth. Y nod yw defnyddio'r wybodaeth hon i'w rhannu â'n teuluoedd a'n timau er mwyn llywio ein modelau gwasanaeth."

THEMA 7: ASESIAU ACHOS CLINIGOL

Nododd y Panel y materion a'r pryderon canlynol ynghylch gweithgarwch clinigol:

1. Roedd angen i ni roi rhagor o gymorth i'n meddygon gan wasanaethau trydyddol newyddenedigol.
2. Mae angen gwell prosesau uwchgyfeirio arnom er mwyn gallu cydnabod yn gynnar yr angen i gyfeirio babanod at unedau trydyddol arbenigol.
3. Roedd ein safonau presgripsiynu yn wael ar adegau, a dylem gael cymorth fferylliaeth newyddenedigol pwrpasol i helpu'r timau i wella hyn.
4. Nid oedd y gwaith o drin ambell gyflwr, e.e. enseffalopathi hypocsig- isgemig, a'r driniaeth ar gyfer hypothermia therapiwtig, bob amser yn unol â fframweithiau arfer gorau cenedlaethol.
5. Mewn rhai achosion, ystyriwyd bod y safonau asesu ac adrodd canlyniadau pelydrau-X yn wael.
6. Nid oedd ein gwaith dogfennu a chadw cofnodion bob amser yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, ac nid oedd uwch feddyg yn goruchwylio crynodebau rhyddhau cleifion fel mater o drefn.
7. Roedd nifer fawr o achosion heb eu cynllunio o alldiwbio (tynnu tiwbiau allan o gyrff cleifion), ac roedd angen adolygu'r rhain ar frys.
8. Rheoli Risg:
9. Cyfathrebu â theuluoedd

Sut rydym wedi ymateb?

CYMORTH MEDDYGOL

Arbenigedd:

Rydym wedi sefydlu trefniadau gydag uned drydyddol sy'n rhoi cyngor amserol i'r meddygon yn yr uned newyddenedigol ynglŷn â gofalu am fabanod pan fydd ei angen. O fis Chwefror 2022 ymlaen, mae'r uned drydyddol wedi cytuno i roi cymorth i'r unedau lleol drwy wahodd ein hymgyngorwyr i ymweld â hwy er mwyn eu helpu i ddysgu a chynnal y sgiliau angenrheidiol.

- Mae rhestr sbarduno gennym i hybu'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer meddygon ynghylch yr angen i gysylltu â'r uned drydyddol.
- Mae gan Rwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru Gyfan dîm cludiant arbennig, sef CHANTS (Gwasanaeth Cymru ar gyfer

Trosglwyddo Cleifion Newyddenedigol Acíwt rhwng Ysbytai). Mae'r tîm wedi ymrwmo i drosglwyddo babanod y mae angen gofal dwys a gofal parhaus arbenigol arnynt yn ddiogel, yn ôl gofynion clinigol. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, ac yn rhoi cymorth i'n timau pan fydd angen uwchgyfeirio'r gofal o ganolfannau trydyddol.

- Mae canllawiau newyddenedigol Cymru gyfan wedi eu cyflwyno yn y ddwy uned er mwyn sicrhau gofal cyfartal i fabanod y mae angen triniaeth hypothermia therapiwtig (oeri babanod) arnynt.

GWELLIANNAU CLINIGOL

Gwella ansawdd:

Mae rhaglen o waith gwella ansawdd parhaus ar y gweill yn y ddwy uned, gyda chanolbwynt allweddol ar osgoi derbyn babanod sydd wedi cyrraedd eu llawn dymor. Enw hyn yw ATAIN (osgoi derbyn babanod sydd wedi cyrraedd eu llawn dymor i'r uned newyddenedigol) ac mae'n cynnwys cyfres o brosiectau, sy'n asesu p'un a ellid osgoi derbyn plentyn i'r uned newyddenedigol ai peidio. Y nod yw lleihau nifer y derbyniadau a chynyddu nifer y babanod sy'n aros gyda'u teulu ar wardiau ôl-enedigol.

Dyma enghreifftiau o'r gwaith hwn:

- Prosiect Gwella Ansawdd, sydd wedi helpu i wneud cynnydd o ran hypothermia therapiwtig. Dyma'r broses lle bydd tymheredd babi yn cael ei ostwng yn ofalus â'r offer cywir er mwyn diogelu ymennydd y babi cyn iddo gael ei drosglwyddo i ganolfan drydyddol er mwyn parhau â'i driniaeth. Mae hyn yn gysylltiedig â blaenoriaethau craidd ATAIN.
- Mae rhaglen waith arall wedi ei chychwyn er mwyn lleihau nifer y babanod a dderbynnir ar gyfer hypoglycaemia (lefel isel o siwgr yn y gwaed). Dylai nifer y babanod a dderbynnir ar gyfer lefel isel o siwgr yn y gwaed leihau drwy gyflwyno ein llwybr hypoglycaemia newydd. Bydd hwn yn helpu i sicrhau bod babanod yn aros gyda'u mamau ar wardiau ôl-enedigol, ac yn lleihau nifer y derbyniadau i'r unedau newyddenedigol. Yn sgil hyn, mae angen rhagor o hyfforddiant ac mae angen prynu offer newydd er mwyn hwyluso'r llwybr. Mae hyn yn gysylltiedig â blaenoriaethau craidd ATAIN.

- Gwnaed rhywfaint o waith i fynd i'r afael ag achosion heb eu cynllunio o alldiwbio gyda hyfforddiant ychwanegol i roi tiwb endotraceaidd (tiwb anadlu) yn ei le. Roedd hwn yn cynnwys prynu tâp newydd, a hyrwyddwyr nyrsio yn arwain y rhaglen hyfforddi. Dyma enghraifft o risg a nodwyd trwy adolygiadau'r Panel, sydd erbyn hyn wedi cael sylw ac wedi ei datrys.

CYMORTH FFERYLLIAETH A PHRESGRIPSIYNU

Rydym wedi recriwtio fferylllydd ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol yn unig, a dechreuodd yr unigolyn yn ei rôl ym mis Rhagfyr 2021. Mae deiliad y swydd eisoes wedi arwain y gwaith o ddatblygu safonau a chanllawiau newydd ar gyfer ein timau, a bydd yn datblygu archwiliad o safonau presgripsiynu a rhaglen hyfforddi yn 2022. Meddai Rebecca Owen:



"Rôl fferylllydd yw sicrhau bod pob claf yn defnyddio meddyginiaethau yn ddiogel ac yn effeithiol. Byddaf yn cynorthwyo'r Tîm Newyddenedigol i ddewis y feddyginiaeth orau a phresgripsiynu'r dosau cywir, gan sicrhau bod gwaith monitro priodol yn cael ei gynnal er mwyn gwella diogelwch wrth roi meddyginiaeth i fabanod newydd-anedig. Rhan arall o fy rôl yw hyfforddi a chynorthwyo'r staff newyddenedigol er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu presgripsiynu a'u gweinyddu'n briodol. Byddaf hefyd yn ymwneud â llywodraethiant clinigol parthed y gwasanaethau newyddenedigol ac yn darparu gwybodaeth arbenigol er mwyn gwella diogelwch meddyginiaethau ymysg y grŵp hwn o gleifion sy'n agored i niwed."

DOGFENNU A CHADW COFNODION

Er mwyn sicrhau ein bod yn gwella ein safonau dogfennu, rydym wedi sefydlu gweithgor bach o uwch-feddygon a nyrsys newyddenedigol sydd wedi ymgymryd â'r gwaith canlynol yn 2021:

- Archwilio'r cofnodion newyddenedigol yn y ddwy uned.
- Ail-gyhoeddi gofynion y Cyngor Bydwreigiaeth Nyrsio a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer cadw cofnodion i'n timau.
- Datblygu cyfres newydd o gofnodion i'w defnyddio yn y ddwy uned.

- Datblygu safonau newyddenedigol newydd, a fydd yn cael eu lansio ym mis Chwefror gyda rhaglen hyfforddi newydd.
- Cytuno ar raglen archwilio ar gyfer adolygu safonau dogfennu a chadw cofnodion ar gyfer 2022.

7.5 RADIOLEG

Er mwyn helpu i adrodd canlyniadau pelydrau-X yn amserol, darparu adroddiadau a chymorth delweddu newyddenedigol o ansawdd uchel yn brydlon i'r timau clinigol, mae'r tîm radioleg wedi cyflwyno cyfres o fesurau:

- Mae cymorth arbenigol trydyddol ar gyfer radioleg newyddenedigol bellach yn cael ei ddefnyddio er mwyn gwella ein gwasanaethau radioleg.
- Mae cyfarfodydd y tîm rheoli radioleg glinigol newyddenedigol ar gael ar-lein ac maent yn darparu llwyfan ar gyfer adolygu a dysgu clinigol, yn ogystal â barn arbenigol ar faterion radiolegol paediatrig.
- Bydd rhaglen archwilio yn cychwyn yn 2022 er mwyn sicrhau bod adroddiadau o belydrau-X newyddenedigol yn cael eu safoni ac yn cael eu hadolygu gan gymheiriaid.



Mae Dr David Deekollu yn Baediatregydd Ymgynghorol ac yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol ar gyfer y Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Meddai Dr Deekollu, sydd hefyd yn arwain yr agwedd glinigol ar y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Newyddenedigol:

"Mae'r tîm paediatrig a'r tîm newyddenedigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl wedi ymrwymo i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r babanod sy'n cael eu geni'n lleol, gan sicrhau canlyniadau da a phrofiadau cadarnhaol i'r teuluoedd yn ogystal ag osgoi niwed. Nodwyd meysydd penodol yn y gwasanaeth i'w gwella ac, yn fy rôl fel Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Clinigol, rwyf wedi bod yn gweithio'n agos gydag uwch-arweinwyr y Bwrdd Iechyd, y Tîm Gwella Gwasanaethau Newyddenedigol a'r tîm clinigol ar lawr gwlad er mwyn cyflawni'r un peth. Rwy'n

falch o'r cynnydd diweddar rydym wedi ei wneud o ran ehangu ein gweithlu meddygol a nyrsio newyddenedigol, cryfhau ein prosesau llywodraethu newyddenedigol mewnol a chydweithio â'r tîm mamolaeth. Mae hon yn daith barhaus i barhau i wella gofal i'n cleifion a'u teuluoedd."

GWELLIANNAU YN Y DYFODOL A CTM 2030

Yn rhan o'n gwaith gwella parhaus, byddwn yn cynorthwyo teuluoedd i wneud y penderfyniadau gorau posibl ar gyfer eu hiechyd, ac rydym yn datblygu dulliau o ymgysylltu â'n teuluoedd.



Jane O'Kane,
Y Cyfarwyddwr
Strategaeth
O'r cyfnod cyn
atgennedlu i'r 1,000

"Yn rhan o'n strategaeth, CTM 2030, mae ein Bwrdd Iechyd bellach yn talu mwy o sylw i'r boblogaeth pan ddaw i iechyd, ac mae atal afiechyd a gwelliannau iechyd cynaliadwy ymysg y boblogaeth yn hollbwysig.

"O safbwynt blynyddoedd cynnar, mae rhaglen waith yn cael ei datblygu a fydd yn blaenoriaethu gweithgarwch sy'n ymwneud ag angen, a'i nod fydd mynd i'r afael â'r ffactorau economaidd-gymdeithasol sy'n ymwneud ag afiechyd a thlodi.

"Mae meysydd i'w blaenoriaethu yn cynnwys datblygu strategaeth cyn atgennedlu sy'n gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o iechyd merched cyn atgennedlu, er mwyn rhoi cymorth i deuluoedd sydd ag amrywiaeth o anghenion. Bydd y gwaith a gynlluniwyd yn adolygu'r modelau presennol ac yn creu llwybrau a gwasanaethau ar gyfer ymyriadau